# Cystadleuaeth Enwi'r Arth

## Rheolau, Telerau ac Amodau



Darllenwch ein telerau ac amodau ar gyfer eich cyfle i ennill Arth Steiff.

**1.** Mae'r gystadleuaeth yn agored i holl breswylwyr Gwent (rhaid i rieni a gwarcheidwaid ymgeiswyr dan 18 oed gyflwyno cais ar eu rhan).

**2.** Bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal rhwng 9am Dydd Gwener 13 Tachwedd a 2pm Dydd Iau 26 Tachwedd. Ni fydd ceisiadau y tu hwnt i'r cyfnod hwn yn cyfrif. Caniateir un cais fesul ymgeisydd, ni fydd unrhyw geisiadau ychwanegol yn cael eu hystyried. Bydd Tîm Cyfathrebu Dyfodol Clinigol yn dewis pum enw terfynol o blith y ceisiadau. Bydd yr enwau ar y rhestr fer yn rhan o bleidlais gyhoeddus ar dudalen Facebook BIPAB ar Ddydd Mawrth 1 Rhagfyr.

**3.** Gallwch gymryd rhan mewn tair ffordd: (rhaid i rieni a gwarcheidwaid ymgeiswyr dan 18 oed gyflwyno cais ar eu rhan).

i. Drwy ein gwefan yn bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol/newyddion-dyfodol-clinigol/
ii. Danfonwch e-bost atom gyda'r enw yr ydych yn ei awgrymu, eich enw chi a'ch rhif ffôn i: ABB.NameTheBear@wales.nhs.uk
iii. Danfonwch yr enw yr ydych yn ei awgrymu, gyda'ch enw chi a'ch rhif ffôn i: Cystadleuaeth Enwi'r Arth

Tîm Cyfathrebu

Adeilad Pencadlys BIPAB

St Cadog

Caerllion, NP18 3XQ

**4.** I fod yn gymwys i gymryd rhan yn y gystadleuaeth, rhaid i chi anfon yr enw yr hoffech ei awgrymu, ynghyd â'ch enw chi, eich cyfeiriad e-bost a rhif ffôn. Rhaid i ymgeiswyr fod ar gael drwy'r manylion cyswllt y maent wedi'u darparu. Os, ar ôl sawl ymgais rhesymol, ni ellir cysylltu â'r enillydd, bydd cyfranogiad yr ymgeisydd yn y gystadleuaeth yn dod i ben a bydd yr unigolyn yn y safle nesaf yn cael y wobr gyntaf..

**5.** Mae'r wobr yn cynnwys arth Steiff. Ni roddir arian parod yn ei le ac ni ellir gwerthu na throsglwyddo'r wobr dan unrhyw amgylchiadau. Caiff yr enillydd ei hysbysu drwy e-bost cyn pen 5 diwrnod gwaith o'r gystadleuaeth yn dod i ben.

**6.** BIPAB sydd â'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'r ymgeiswyr sy'n cymryd rhan a'r enillwyr. Ni ymgymerir â gohebiaeth mewn perthynas â'r gystadleuaeth.

**7.** Os oes yna mwy nag un person yn awgrymu'r un enw, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis ar hap.

**8.** Mae'n bosibl y bydd enw cyntaf yr enillydd yn cael ei gyhoeddi.

**9.** Mae BIPAB yn cadw'r hawl i: (i) ddiwygio'r telerau ac amodau hyn gan gynnwys, ymhlith eraill, yr amseroedd agor a chau; (ii) dileu ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno mwy nag un cais a cheisiadau twyllodrus, yn ogystal â diarddel cyfranogwyr os ydym yn amau bod unrhyw weithgaredd wedi digwydd nad yw'n cael ei ystyried o fod o fewn natur y gystadleuaeth.

**10.** Nid yw BIPAB, eu his-gontractwyr, is-gwmnïau a/neu asiantaethau yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am unrhyw fethiant neu ddiffyg technegol neu unrhyw broblem gydag unrhyw weinydd, system, rhwydwaith neu ddarparwr gwasanaeth neu fel arall a all olygu na ddaeth y cynnig i law neu na chafodd ei gofnodi.

**11.** Mae BIPAB yn cadw'r hawl i addasu, canslo neu oedi'r gystadleuaeth hon yn ddirybudd.

**12**. Mae BIPAB yn parchu eich preifatrwydd yn unol â'r deddfau diogelu data personol, gan gynnwys heb gyfyngiadau Rheoliad Diogelu Data yr UE a Deddf Diogelu Data 2018. Os byddwch yn darparu data personol i BIPAB mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth hon, bydd BIPAB yn ei brosesu mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth yn unig, at ei ddibenion cadw cofnodion ac mewn perthynas â'i weithgareddau sydd ynghlwm â hynny.

**13.** Bydd cyfranogwyr dan rwymedigaeth i gydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn, a byddant wedi'u derbyn.